**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**William Powell AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

11 Tachwedd 2014

Annwyl Bill,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref 2014 ynglŷn â deiseb P-04-568 ar Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Roedd eich llythyr yn gofyn a fyddem yn ymgymryd â gwaith yn y maes hwn o ystyried ei berthnasedd i'n cylch gwaith. Cafodd y mater ei drafod yn ein cyfarfod ar 6 Tachwedd 2014. Nododd yr Aelodau nad yw hwn yn fater sydd ar raglen y Pwyllgor ar hyn o bryd, fodd bynnag, cytunwyd i dynnu eich sylw at waith parhaus y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar drefniadau llywodraethu byrddau iechyd o fewn GIG Cymru. Cytunodd y Pwyllgor i aros am gyhoeddiad adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus cyn ystyried y mater ymhellach.

Diolch eto am dynnu ein sylw at y materion a godwyd yn y ddeiseb.

Yn gywir,

David F. Rees.

**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 029 2089 8403
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk / HSCCommittee@wales.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh